crynodeb gwyddoniaeth

Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Environment Agency Wales

www.asiantaeth-amgylchedd.cymru.gov.uk SCHOXXXXXXXX-B-P

Cyfarwyddyd Dylunio Tirwedd ac Amgylcheddol

Crynodeb Gwyddoniaeth SC020101/SS

Mae staff Gwasanaeth Asesu Amgylcheddol Cenedlaethol Asiantaeth yr Amgylchedd (NEAS) wedi gweithio gyda'r ymgynghorwyr Ferguson McIlveen a WS Atkins i gynhyrchu nodiadau canllaw ynghylch sut y dylai Asiantaeth yr Amgylchedd drin materion yn ymwneud â'r tirlun a dyluniad amgylcheddol wrth ddatblygu prosiectau cyfalaf. Defnyddir yr wybodaeth hon gan staff sy'n rheoli'r broses Asesiad Effaith Amgylcheddol (AEA) neu rhai sy'n ymwneud â datblygu prosiectau cyfalaf. Bydd defnyddio'r canllawiau yn hyrwyddo cysondeb a gwerth am arian o fewn prosiectau ac yn sicrhau bod prosiectau'r Asiantaeth wedi eu dylunio a'u gweithredu hyd at y safon cywir.

Mae'r canllaw, a fydd ar gael i staff Asiantaeth yr Amgylchedd ar y mewnrwyd, yn canolbwyntio ar ymrannu'r broses gyffredinol i gamau bychain, gan ganiatáu i ystyriaeth lawn gael ei rhoi i'r cyfleoedd amgylcheddol a'r cyfyngiadau yn ystod pob cam. Mae'n rhoi canllawiau hefyd ynghylch sut i reoli'r materion hyn ac yn cynnwys rhestr o safonau ansawdd dylunio i roi gwybodaeth i ddylunwyr am yr agwedd y dylent ei mabwysiadu.

Mae'r canllawiau yn cynnwys cyfres o nodiadau ynghylch sut i ddehongli methodolegau safonol fel y Methodoleg Asesu Tirlun ac Effaith Weledol wrth weithio ar gynlluniau Asiantaeth yr Amgylchedd. Mae'n amlinellu hefyd sut i ymdrin â choed, dylunio waliau ac argloddiau i gyd-fynd â thirlun, defnyddio cylchfaoedd gwarchod tirlun a chynnal contractau cynnal gwaith plannu.

Bydd y ddogfen yn cael ei diweddaru'n rheolaidd gan is-grŵp Tirlun, Grŵp Arolygu Arfer Da NEAS, gan sicrhau y bydd yn parhau i fod yn ffynhonnell gwybodaeth ddefnyddiol am dirlun a dyluniad amgylcheddol.

Mae'r Crynodeb hyn yn ymwneud â gwybodaeth o Brosiect SC020101. Gellir gweld y gyfres o ganllawiau ymarferol, y cyfeirir atynt ar y cyd fel "Egwyddorion a Safonau Ansawdd Dylunio Amgylcheddol" yn y wefan ganlynol: -

http://intranet.ea.gov/organisation/ncs/neas/contents.htm

Côd y Cynnyrch: SCHO1006BLKQ-E-P

Statws mewnol: Ar gael i bob rhanbarth
Satws allanol: Ar gael yn gyhoeddus

Rheolydd y prosiect: Dermot Smith, Gwasanaeth Asesu Amgylcheddol Cenedlaethol

Contractwr Ymchwil: Stuart Ryder, Furguson McIlveen

Cyllidwyd y prosiect hwn gan Grŵp Gwyddoniaeth Asiantaeth yr Amgylchedd, sy'n darparu gwybodaeth wyddonol, teclynnau a thechnegau i'n galluogi i warchod a rheoli'r amgylchedd mor effeithiol â phosibl.

Gellir cael copïau pellach o'r crynodeb hwn ac adroddiad(au) cysylltiedig o'n catalog o gyhoeddiadau neu ein Canolfan Cyswllt â Chwsmeriaid Genedlaethol Ffôn: 08708 506506 neu ebost:enquiries@environment-agency.gov.uk.

© Asiantaeth yr Amgylchedd